

Amlinelliad o'r Cymhwyster TGAU Daearyddiaeth – Fersiwn Ymgynghori



Gwnaed i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Cyflwyniad

Yn y ddogfen hon mae trosolwg ar lefel uchel o'r Cymhwyster CBAC TGAU Daearyddiaeth arfaethedig.

Mae'n seiliedig ar Feini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru (mae adrannau allweddol wedi'u cynnwys yn Atodiad 1). **Rhaid** i'n cymhwyster ni fodloni'r gofynion hyn.

Bydd yr amlinelliad hwn o'r cymhwyster yn gweithio fel canllaw ar gyfer datblygu'r Fanyleb a'r Deunyddiau Asesu Enghreifftiol (DAE).

Trosolwg

Bydd y cymhwyster TGAU Daearyddiaeth yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru drwy wneud hyn:

- Cefnogi'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig¹, gan roi cyfle i'r dysgwyr:
 - feithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r cysyniadau sy'n sail i'r dyniaethau, a sut i'w cymhwyso mewn cyd-destunau lleol, cenedlaethol a byd-eang
 - bod o gymorth i ddysgwyr gasglu, cyfiawnhau, cyflwyno, dadansoddi a gwerthuso ystod o dystiolaeth
 - archwilio sut a pham y gall dehongliadau wahaniaethu, ac wrth ddatblygu dealltwriaeth feirniadol o ystod o ddehongliadau a ffyrdd o gyfleu elfennau a gasglwyd o amrywiaeth o dystiolaeth
 - profi rhyfeddod y byd naturiol
 - deall a gwerthfawrogi sut a pham mae lleoedd, tirwedd ac amgylchedd yn newid, yn lleol, yng Nghymru yn ogystal ag yn fyd-eang
 - datblygu dealltwriaeth o sut y gall gweithredoedd dynol yn y gorffennol a'r presennol effeithio ar y berthynas rhwng y byd naturiol a phobl
 - dwysáu ymwybyddiaeth dysgwyr o'r modd y mae'r gweithredoedd hyn yn dylanwadu ar gynaliadwyedd ein byd yn y dyfodol a'r newid yn yr hinsawdd
 - gwerthfawrogi sut mae esblygiad lleoedd, cymunedau a chymdeithasau yn cael ei sbarduno gan y rhyngweithio sydd rhwng ystod o ffactorau, gan gynnwys prosesau amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol, gwleidyddol a diwylliannol, ynghyd â gweithredoedd pobl
 - meithrin dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau fel dinasyddion Cymru a'r byd rhyng-gysylltiedig ehangach.
 - annog dysgwyr i ddatblygu fel dinasyddion byd-eang hunanymwybodol, gwybodus, moesegol sy'n myfyrio'n feirniadol ar eu credoau, gwerthoedd a'u hagweddau eu hunain ac eraill
- Cefnogi'r egwyddorion cynnydd² drwy annog dysgwyr i:
 - ofyn cwestiynau ymholi cynyddol soffistigedig
 - dangos mwy o annibyniaeth wrth ddod o hyd i wybodaeth addas, gan wneud rhagfynegiadau a damcaniaethau gwybodus, a gwneud penderfyniadau
 - cynyddu eu gwybodaeth a chysyniadau sylfaenol eang a dwfn
 - meithrin dealltwriaeth ohonyn nhw eu hunain yn y byd
 - dangos y gallu i weithio gyda nifer cynyddol o ffynonellau gwybodaeth fwyfwy soffistigedig, a dealltwriaeth gynyddol o ffyrdd o ymdrin â hanesion anghyson neu sy'n gwrthdaro

¹ <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/datganiadau-o-r-hyn-sy-n-bwysig/>

² <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/egwyddorion-cynnydd/>

- dangos gallu cynyddol i drosglwyddo sgiliau a gwybodaeth bresennol i gyd-destunau sy'n newydd ac yn gynyddol anghyfarwydd.
- Cefnogi'r ystyriaethau pwnc-benodol ar gyfer Daearyddiaeth³drwy:
 - gynnig cyfleoedd i ddeall ac ymchwilio tirweddau ffisegol a dynol, a chyd-destun ar gyfer achosion a chanlyniadau rhyngberthnasoedd a rhyngddibyniaeth ffisegol a dynol sy'n nodweddu ein byd modern
 - cynnig cyfleoedd i ddeall ac ymchwilio materion daearyddol allweddol
 - darparu sgiliau i'r dysgwyr gwestiynu, defnyddio a dadansoddi mapiau, delweddau a systemau gwybodaeth ddaearyddol
 - darparu sgiliau daearyddol i'r dysgwyr ffurfio cwestiynau ymchwil, ac i gasglu, trin a chyflwyno data fel eu bod yn gallu gwerthuso a meddwl yn feirniadol am broblemau a materion
 - darparu amrywiaeth o gyfleoedd i ddysgu yn yr awyr agored, drwy gyfrwng gwaith maes a'r ystafell ddosbarth yn yr awyr agored, ac i brofi a myfyrio ar ryfeddod y byd naturiol mewn amrywiaeth o amgylcheddau ffisegol, dynol a hanesyddol.

Bydd y cymhwyster TGAU Daearyddiaeth yn seiliedig ar y cysyniadau daearyddol canlynol hefyd sydd wedi'u rhestru yn adran 6.1 o'r Meini Prawf Cymeradwyo cyhoeddedig:

- lle a gofod⁴
- graddfa
- proses
- parhad⁵ a newid
- rhyngberthnasoedd
- amrywiaeth
- amgylchedd
- dehongli.

Mae pob un o'r cysyniadau hyn wedi'i fapio i'r cysyniadau a nodwyd yng nghanllawiau 'dylunio eich cwricwlwm' Llywodraeth Cymru yn ogystal â'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a chamau cynnydd y Dyniaethau. Maen nhw wedi'u mapio hefyd i gysyniadau'r Gymdeithas Ddaearyddol.

Strwythur Arfaethedig y Cymhwyster

Uned 1: Cysyniadau Allweddol mewn Daearyddiaeth

Arholiad ysgrifenedig

30% o'r cymhwyster

Uned 2: Datblygu Sgiliau Gwaith Maes

Asesiad di-arholiad – tasgau Ymholi

25% o'r cymhwyster

Wedi'i gosod gan CBAC, ei marcio gan y ganolfan a'i chymedroli gan CBAC

Uned 3: Materion Cyfoes mewn Daearyddiaeth

Arholiad ysgrifenedig

30% o'r cymhwyster

³ <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/cynllunio-eich-cwricwlwm/#specific-considerations-for-this-area>

⁴ Mae'r ddau gysyniad hyn wedi'u rhoi gyda'i gilydd oherwydd y rhyngberthynas naturiol sy'n perthyn iddyn nhw.

⁵ Ychwanegwyd parhad at y cysyniad hwn i adlewyrchu cysyniadau'r Gymdeithas Ddaearyddol [GA-Curriculum-Framework-2022-WEB-final.pdf](#)

Uned 4: Datrysiadau Cynaliadwy Posibl

Asesiad di-arholiad – Ymarferiad Gwneud Penderfyniadau
15% o'r cymhwyster
Wedi'i gosod a'i marcio gan CBAC

Cymhwyster unedol fydd hwn.

Ac eithrio Uned 1, sy'n uned ragarweiniol, nid yw trefn gyflwyno'r tair uned arall yn awgrymu unrhyw hierarchaeth. Felly, nid oes yma awgrym o drefn addysgu benodol.


Gwybodaeth am Unedau

Uned 1 – Cysyniadau Craidd mewn Daearyddiaeth

Pwrpas yr uned hon yw:

- cyflwyno **dysgwyr** i'r cysyniadau allweddol i'w harchwilio drwy gydol y cwrs
- archwilio daearyddiaeth ffisegol a dynol
- cynnwys testunau craidd a fydd yn gosod cyd-destun y cwrs ac yn rhoi'r cefndir sy'n angenrheidiol i gwblhau'r tair uned arall.

Bydd yr uned hon yn seiliedig ar y cysyniadau a thestunau posibl canlynol:




Asesir yr uned drwy arholiad a fydd ar gael yn y gyfres haf. Bydd cymysgedd o fathau o gwestiynau a fydd yn targedu AA1, AA2 ac AA3. Bydd arholiad ar gael i'r garfan gyntaf yn haf 2026. Mae'n debygol y bydd y pwysoli uchaf am AA1, wedi'i ddilyn gan AA2 ac AA3. Mae'n debygol y bydd yr arholiad tuag 1 awr a 30 munud o hyd. Ni fydd opsiynau yn yr uned hon.

Uned 2 – Datblygu Sgiliau Gwaith Maes

Pwrpas yr uned hon yw:

- archwilio gwaith maes a sgiliau
- datblygu dealltwriaeth o'r model ymholi chwe cham.

Bydd yr uned hon yn seiliedig ar y cysyniadau a thestunau posibl canlynol:



Aseiad di-arholiad fydd yr uned hon, a fydd ar gael yn y gyfres haf, yn 2026 am y tro cyntaf. Bydd cymysgedd o dasgau a fydd yn targedu AA2, AA3 ac AA4. Mae'n debygol y bydd y pwysoli uchaf am AA3 (oherwydd y sgiliau ymchwilio a'r pwyslais ar gyfiawnhau a gwerthuso) wedi'i ddilyn gan AA4 ac yna AA2. Bydd yr aseiad di-arholiad yn dilyn proses aml-gam. Bydd CBAC yn gosod dau faes testun y flwyddyn o: cylchredau a llifoedd, aneddiadau, cynaliadwyedd, risgiau a lliniaru, anghydraddoldeb, poblogaeth, lle a gofod, newid dros amser. Cyhoeddir y rhestr o destunau ar ddechrau'r cymhwyster am y blynnyddoedd i ddod. Bydd canolfannau'n gallu dewis un o'r ddau destun i'w harchwilio yn eu hardal leol. Bydd canolfannau'n cyflwyno'r aseiad di-arholiad wedi'i gwblhau yn yr haf yn y flwyddyn mae'n cael ei gymryd. Bydd y tasgau'n canolbwyntio ar gyfiawnhau a gwerthuso'r dewisiadau gwaith maes sydd wedi'u gwneud. Ni fydd yn eu disgrifio (sef un o'r sgiliau AA1 sydd ddim yn rhan o'r aseiad di-arholiad hwn). Bydd dysgwyr yn cael dewis sut i gyflwyno eu tasgau. Bydd y canolfannau'n marcio'r aseiad di-arholiad a CBAC yn ei gymedroli. Mae'n debygol y bydd lefel isel o reolaeth ar gyfer cyflawni'r gwaith maes fel y gall dysgwyr gyflawni profiad ymholi dilys. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd lefel uchel o reolaeth ar gyfer tasgau wedi'u hasesu.


Rhaid cyflwyno'r asesiad yn ddigidol. Bydd tua thair i bedair awr ar gael ar gyfer yr asesiad (heb gynnwys yr amser mae'n ei gymryd i wneud y gwaith maes).

Uned 3 – Materion Cyfoes mewn Daearyddiaeth

Pwrpas yr uned hon yw:

- cyflwyno **dysgwyr** i feysydd thematig fel amgylcheddau mewn perygl (tir a chefnfor) a defnydd o adnoddau, tywydd, hinsawdd a newid hinsawdd, amgylcheddau mewn perygl, mudo, integreiddio ac arwahanu, masnach a chymorth, anghydraddoldeb cymdeithasol a byd-eang

Bydd yr uned hon yn seiliedig ar y cysyniadau a thestunau posibl canlynol:




Asesir yr uned drwy arholiad a fydd ar gael yn y gyfres Haf. Bydd cymysgedd o fathau o gwestiynau a fydd yn targedu AA1, AA2 ac AA3. Mae'r uned hon yn annog mwy o feddwl yn feirniadol, felly mae'n debygol y bydd pwysoli AA3 yn uwch yn y papur hwn gyda phwysoli tebyg i AA1 ac AA2. Mae'n debygol y bydd yr arholiad tuag 1 awr a 30 munud o hyd. Ni fydd opsiynau yn yr uned hon.

Uned 4 – Datrysiaidau Cynaliadwy Posibl

Pwrpas yr uned hon yw:

- archwilio materion daearyddol presennol a dyfodol cynaliadwy
- cyflwyno'r tri philer cynaliadwyedd a nodau cynaliadwyedd, yn seiliedig ar gymryd camau gweithredu (egni a bwyd, peryglon, lliniaru risgiau, dŵr, tai)
- cynyddu sgiliau datrys problemau

Bydd yr uned hon yn seiliedig ar y testunau posibl canlynol:



Bydd yr uned hon ar ffurf asesiad di-arholiad a fydd ar gael yn y gyfres haf. Bydd yn cynnwys cymysgedd o dasgau a fydd yn targedu AA2, AA3 ac AA4. Mae'n debygol y bydd yn pwysoli uchaf am AA4, wedi'i ddilyn gan AA2 ac AA3. Ni fydd opsiynau yn yr uned hon. Bydd yr asesiad di-arholiad yn cynnwys senario blynyddol yn seiliedig ar fater daearyddol a fydd wedyn yn cyflwyno tri datrysiaid posibl i'r mater. Bydd gofyn i ddysgwyr ymchwilio i ddatrysiaid a chyfiawnhau pam eu bod yn credu dyma'r ffordd orau i fynd i'r afael â'r mater, gan nodi pam na fyddent yn dewis y ddau ddatrysiaid arall. Bydd tasgau'n aros yr un fath drwy gydol oes y fanyleb. CBAC fydd yn ei gosod ac yn ei marcio. Mae'n debygol y bydd lefel isel o reolaeth ar gyfer cyflawni'r gwaith ymchwil fel y gall dysgwyr gyflawni profiad ymholi dilys. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd lefel uchel o reolaeth ar gyfer tasgau wedi'u hasesu. **Rhaid** cyflwyno'r asesiad yn ddigidol. Bydd tua phedair awr ar gael ar gyfer yr asesiad (dwy awr i wneud gwaith ymchwil a dwy awr i gwblhau'r tasgau).

Ystyriaeth o hydrinedd, ymgysylltiad, dilysrwydd a dibynadwyedd

Wrth ddatblygu'r amlinelliad hwn o'r cymhwyster arfaethedig, rydym wedi ystyried hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd a hefyd sut i gydbwysu'r ystyriaethau hyn yng nghyd-destun gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo.

Yn ôl gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo mae angen asesu 40% o'r cymhwyster drwy asesiad di-arholiad. Bydd CBAC yn gosod un asesiad di-arholiad, y ganolfan yn ei farcio'n fewnol a CBAC yn ei gymedroli. CBAC fydd yn gosod ac yn marcio'r llall.

Mae rhai heriau posibl o ran hydrinedd a bwriadwn leihau'r rhain i'r eithaf drwy ledaenu'r llwyth gwaith a'r asesu. Gan fod y Meini Prawf Cymeradwyo yn nodi bod hwn yn gymhwyster unedol, bwriadwn ddarparu'r ddau asesiad di-arholiad yn nhymor yr haf yn y flwyddyn gyntaf a'r ail flwyddyn o addysgu. Bydd hyn wedyn yn rhoi rhywfaint o ddewis i'r canolfannau. Nhw sydd i benderfynu pa bryd i gyflawni'r asesiadau di-arholiad. Rydym wedi ystyried yr amser asesu a ddyrannwyd i'r ddau asesiad di-arholiad yn ogystal er mwyn ceisio lleihau'r effaith ar addysgu a dysgu. Bydd y ddau asesiad di-arholiad yn cynnwys tasgau sy'n galw am ymholi ymarferol (gwneud gwaith maes a gwneud gwaith ymchwil ar gyfer yr ymarferiad gwneud penderfyniadau). O ran yr hydrinedd byddem yn rhagweld bod yma lefel isel o reolaeth fel y gall dysgwyr gyflawni profiad ymholi dilyn. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau dibynadwyedd, bydd cyfarwyddyd ar gael o ran y nodiadau y bydd modd eu defnyddio o'r ymholiad ymarferol wrth ymateb i'r tasgau asesu. Wrth gyflawni'r tasgau i'w hasesu, daethpwyd i'r casgliad ei bod yn hanfodol cael lefel uchel o reolaeth er mwyn sicrhau dibynadwyedd. Bydd hyn yn bodloni'r gofyniad yn y Meini Prawf Cymeradwyo y gall dysgwyr ddangos eu sgiliau ymchwil, ymholi ac ymchwilio daearyddol, gan gynnwys sgiliau meddwl yn feirniadol a'r gallu i fyfyr. Deallwn y gall fod materion hydrinedd i ganolfannau wrth gynnal gwaith maes. Felly, ystyriwyd hyn drwy ofyn i'r canolfannau gyflawni un ymholiad gwaith maes, yn hytrach na'r ddau sy'n ofynnol yn y TGAU presennol.

Credwn y dylai'r cymhwyster arfaethedig gynnig cyfleoedd i ganolfannau ddatblygu rhaglen astudio ddeniadol ar gyfer eu dysgwyr, yn unol â disgwyliadau'r Cwricwlwm i Gymru. Bydd Uned 1 yn ymdrin â daearyddiaeth ffisegol a dynol, gan ganiatáu ymdrin ag amrywiaeth o destunau. Byddant yn gallu dod i ddeall yn well y cysyniadau sy'n sail i ddaearyddiaeth, a sut maen nhw'n cael eu cymhwyso at gyd-destunau lleol, cenedlaethol a byd-eang. Bydd hyn wedyn yn caniatáu archwilio rhyng-gysylltiadau, a chynyddu'r ymdeimlad o gynefin. Yn Uned 2 bydd dysgwyr yn gallu mynd ati i ddysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth mewn amgylcheddau cyferbyniol. Bydd hyn wedyn yn rhoi cyd-destun o'r byd go iawn i ddysgu'r dysgwyr. Bydd amrediad o faterion cyfoes yn Uned 3 yn galluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau a fydd yn eu helpu i werthuso ffynonellau gwybodaeth, dadansoddi materion a herio neu gefnogi'r safbwyntiau presennol sydd ganddynt. Bydd yr uned yn helpu dysgwyr i ddarganfod ac eirioli dros y materion maen nhw'n poeni fwyaf amdany'n nhw ac yn cynnig y cyfle i gael trafodaeth ddiddorol yn yr ystafell ddosbarth. Bydd Uned 4 yn fodd o feithrin chwilfrydedd dysgwyr i archwilio achosion, effeithiau a chanlyniadau daearyddol. Gan fod hon yn uned sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd, dangosodd ymchwil bod defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar wneud penderfyniadau/cynnig datrysiadau yn fwy cadarnhaol o ran y safbwynt mae'n ei gynnig o ddatrysiadau cynaliadwyedd. Nid yw'n rhoi'r holl sylw ar broblemau. Yn ei dro mae hyn yn lleihau'r ymdeimlad o anobaith sy'n gallu treiddio trwy unrhyw drafodaeth ynghylch cynaliadwyedd. Yn hytrach mae'n ceisio ymgysylltu'r dysgwyr ac yn ceisio eu grymuso i gyfrannu'n weithredol at y ffordd mae'r gymdeithas ei hun yn datblygu i fod yn gymdeithas gynaliadwy.

Credwn fod yr asesiadau di-arholiad a gynigiwyd ar gyfer Unedau 2 a 4 yn ffordd ddilys o asesu'r pwrpas a'r cynnwys. Byddant yn caniatáu i ddysgwyr ddangos eu sgiliau mewn cyd-destunau priodol. Er mwyn sicrhau dibynadwyedd yr asesiadau di-arholiad, byddwn yn sicrhau bod pob uned yn targedu'r un pwysoliadau o ran yr amcanion asesu dros amser. Datblygir meini prawf marcio ar gyfer y ddwy uned. Yn achos Uned 2, bydd athrawon yn derbyn pecyn o gefnogaeth a fydd yn sicrhau bod y meini prawf marcio'n cael eu

cymhwyso'n gyson ar draws y canolfannau a dros amser. Byddwn yn cymedroli sampl o waith pob canolfan, er mwyn cynnig mwy o sicrwydd dibynadwyedd.

O ran pwrpas a chynnwys Unedau 1 a 3, credwn mai asesiad drwy arholiad yw'r asesiad mwyaf dilys, ac y gall cymysgedd o fathau o gwestiynau ein helpu i wneud y mwyaf o'r dilysrwydd. Wrth i ni ddatblygu asesiadau, byddwn yn sicrhau bod yr holl dasgau'n targedu'r lluniad perthnasol, gan gydbwyso'r cynnwys dros amser yn briodol ac alinio'r eitemau asesu a'r canlyniadau dysgu. Lle bynnag y bo'n briodol gwneud hynny byddwn yn defnyddio data sydd ar gael i ni o ran sut y gweithredodd yr asesiad. I sicrhau eu bod yn ddibynadwy, byddwn ni'n gwneud yn siŵr bod yr unedau arholiad yn targedu'r un pwysoliadau o ran amcanion asesu a bod lefel y galw'n gyson ym mhob cyfres. Datblygir meini prawf marcio a bydd aseswyr yn cael eu hyfforddi o ran sut i'w cymhwyso'n gyson.

Byddwn yn parhau i ystyried y cydbwysedd o ran hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd ym mhob cam o ddatblygu'r cymhwyster.

Atodiad 1

Gwybodaeth allweddol o'r Meini Prawf Cymeradwyo

Daeth y wybodaeth sy'n dilyn yn syth o [Feini Prawf Cymeradwyo - TGAU Daearyddiaeth](#) Cymwysterau Cymru - ac mae'n rhaid i'n cymhwyster ni fodloni'r gofynion hyn.

Pwrpas

1. Rhaid i **TGAU Daearyddiaeth**:
 - 1.1 gael ei dylunio'n bennaf ar gyfer *Dysgwyr* rhwng 14 ac 16 oed
 - 1.2 adeiladu ar y ddealltwriaeth gysyniadol y mae *Dysgwyr* wedi'i datblygu drwy eu haddysg rhwng 3 ac 14 oed
 - 1.3 cefnogi addysgu a dysgu drwy ddarparu cynnwys ac asesiadau sy'n briodol o eang, heriol, perthnasol a diddorol sy'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm i Gymru ac yn ei gefnogi, gan gynnwys ei [bedwar diben](#)
 - 1.4 galluogi *Dysgwyr* i ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cefnogi dilyniant i astudio ôl-16 ac sy'n eu paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith
 - 1.5 darparu gwybodaeth ystyrlon, deg a chywir am gyflawniad *Dysgwyr* mewn pwnc sy'n amlygu'r hyn y mae *Dysgwyr* yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud

Nodau

2. Rhaid i **TGAU Daearyddiaeth**:
 - 2.1. ganiatáu i *Ddysgwyr* archwilio amrywiaeth o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn perthynas â daearyddiaeth
 - 2.2. darparu cyfleoedd i *Ddysgwyr* gael eu hasesu mewn amrywiaeth o gyd-destunau perthnasol ac ystyrlon
3. Rhaid i'r cymhwyster **TGAU Daearyddiaeth** gefnogi *Dysgwyr* i:
 - 3.1. ddod yn ddaearyddwyr annibynnol, cytbwys ac ymatebol gyda dealltwriaeth fanwl o berthnasoedd gofodol a'r byd newidiol
 - 3.2. gwerthfawrogi natur gymhleth, luosog ac amrywiol cymdeithasau a'u rhyngweithiadau â thirweddau ffisegol amrywiol a deinamig
 - 3.3. dangos safbwynt daearyddol ar werthoedd, agweddau a phersbectifau ynglŷn â'r rhyngberthnasoedd rhwng pobl a'u hamgylchedd
 - 3.4. cymhwyso dealltwriaeth ac ymarfer daearyddol at amrediad o gyd-destunau ac ymholiadau
 - 3.5. meithrin chwilfrydedd i archwilio achosion, effeithiau a chanlyniadau daearyddol
 - 3.6. gwneud synnwyr o'r byd er mwyn gweithio tuag at ddyfodol cynaliadwy

Amcanion Asesu

- Yn yr asesiad o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol yn y cymhwyster, rhaid targedu'r amcanion asesu canlynol i gyfateb i'r pwysoli a nodir, o fewn goddefiant o +/- 5 pwynt canrannol.

AA1	Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o leoedd, pobl, amgylcheddau a phrosesau ar amrywiaeth o raddfeydd	25%
AA2	Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth at gysyniadau daearyddol	25%
AA3	Dadansoddi, gwerthuso neu wneud penderfyniadau o amrywiaeth o ffynonellau, gan syntheseiddio lle bo'n briodol	25%

AA4	Dewis, defnyddio a chymhwyso sgiliau a thechnegau yn ymarferol a ddefnyddir gan ddaearyddwyr i gefnogi ymholiad daearyddol.	25%
------------	--	-----

Cynllun asesu

- Rhaid i'r cymhwyster **TGAU Daearyddiaeth** fod yn unedol.
- Ni fydd haenau yn y cymhwyster hwn.

Rhaid i'r fanyleb **TGAU Daearyddiaeth** gynnwys y trefniadau asesu a ganlyn:

11.1. dau asesiad arholiad sydd:

11.1.1. yn cael eu gosod a'u marcio gan y corff dyfarnu

11.1.2 yn cyfrif am 60% o'r cymhwyster

12. Rhaid i amseriad yr arholiadau gael ei osod gan y corff dyfarnu.

13. Rhaid cael dau asesiad di-arholiad sy'n cyfrif am 40% o'r cymhwyster;

13.1. un asesiad di-arholiad wedi'i osod gan y corff dyfarnu, wedi'i farcio'n fewnol gan yr ysgol, a'i gymedroli'n allanol gan y corff dyfarnu

13.2. un asesiad di-arholiad wedi'i osod a'i farcio'n allanol gan y corff dyfarnu

13.3. rhaid gallu cyflwyno'r ddau asesiad di-arholiad yn ddigidol

14. Rhaid i un uned arholiad fod ar gael yn haf 2026 ar gyfer y garfan gyntaf o *Ddysgwyr* sy'n gwneud y cymhwyster.